**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 9 Chwefror 2022 am 5.00 pm.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd G Hughes -Cadeirydd

| | |
|---|---|
| | Y Cynghorydd M Adams |
| Y Cynghorydd J Barton | Y Cynghorydd S Belzak |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd H Boggis |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd A Calvert |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd A Cox |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd J Cullwick |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd L De Vet |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd M Forey |
| Y Cynghorydd A Fox | Y Cynghorydd H Fychan |
| Y Cynghorydd E George | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd E Griffiths | Y Cynghorydd J Harries |
| Y Cynghorydd L Hooper | Y Cynghorydd P Howe |
| Y Cynghorydd J James | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd K Jones |
| Y Cynghorydd L Jones | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd A Morgan |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd Owen-Jones | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd S Powell | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd S. Rees-Owen | Y Cynghorydd A Roberts |
| Y Cynghorydd J Rosser | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd E Stephens | Y Cynghorydd G Thomas |
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd R Turner | Y Cynghorydd L Walker |
| Y Cynghorydd M Weaver | Y Cynghorydd M Webber |
| Y Cynghorydd E Webster | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd R Yeo |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**121 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod hybrid y Cyngor a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Chapman, J Davies, A-Davies Jones, J Edwards, J Elliott, S Evans, M Fidler Jones, M Griffiths, G Holmes , G Hopkins, S Pickering ac S Powderhill.

Roedd y Cynghorwyr a'r swyddogion canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor: Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Morgan, R Bevan, A Crimmings, G Caple, W Lewis, C Leyshon, M Norris, S Rees, R Williams, M Powell, L Walker, E Stephens, S Trask ac L Hooper.

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr, Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol, Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

**122 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd nifer o ddatganiadau o fuddiant eu gwneud ynglŷn â'r agenda yn ddiweddarach yn y cyfarfod (Cofnodion 128 a 129):

**EITEM 6 - TRAFODAETH AR SEFYLLFA'R FWRDEISTREF SIROL**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Trask - Buddiant Personol - “Mae fy ngwraig wedi'i chyflogi gan GIG Cymru".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Barton - Buddiant Personol – “Rwy'n Gadeirydd ar Gyrff Llywodraethu dwy ysgol yn y Fwrdeistref Sirol”.

**EITEM 7 - MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH YR AELODAU**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan – Buddiant Personol – “Rwyf wedi bod yn arwain rhai o'r trafodaethau fel Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru”.

**123 Cyhoeddiadau**

**Munud o ddistawrwydd**

Arweiniodd y Dirprwy Lywydd y cofnod o dawelwch er cof am gyn Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol John Watts a'r cyn Ddirprwy Brif Weithredwr Mr Steve Merritt, a fu farw'n ddiweddar.

Er cof am Mr Steve Merritt:

- Talodd yr Arweinydd deyrnged i Mr Steve Merritt, a fu'n helpu i lunio a llywio'r Cyngor trwy gyfnod anodd ac yn ei waith fel Swyddog Cyllid a chyn Brif Weithredwr. Dywedodd yr Arweinydd fod Steve yn ŵr bonheddig a oedd wedi aros yn gyfaill da yn dilyn ei ymddeoliad o'r

Cyngor. Ar ran y Grŵp Llafur, estynnodd ei gydymdeimlad â theulu a chydweithwyr Steve am eu colled.

- Soniodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman am ei hatgofion o weithio gyda Steve Merritt, a oedd wedi gweithio ei ffordd i fyny'r strwythur rheoli er mwyn dod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol tan 2014 ac wedyn yn Brif Weithredwr tan 2015. Ar ran Grŵp Plaid Cymru, roedd y Cynghorydd Jarman yn dymuno anfon ei chydymdeimlad diffuant at deulu a ffrindiau Steve.
- Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell deyrnged i Steve Merritt ac anfonodd ei gydymdeimlad at deulu a ffrindiau Steve.

Er cof am gyn Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol John Watts

- Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at angerdd John Watts dros y Rhondda a'i gymuned leol, gan nodi ei fod e'n gyn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol a weithiodd yn galed dros y trigolion lleol. Talodd yr Arweinydd deyrnged hefyd i ffrind a chydweithiwr da, a chydymdeimlodd â theulu a ffrindiau John.
- Cofiodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman gyfnod John fel Maer y Cyngor, yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor. Ar ran Grŵp Plaid Cymru, roedd y Cynghorydd Jarman yn dymuno anfon ei chydymdeimlad diffuant at deulu a ffrindiau John.
- Cydnabu Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell broffesiynoldeb John fel cynghorydd ac ar ran Grŵp Annibynnol RhCT estynnodd ei gydymdeimlad â theulu John ar yr adeg drist hon.

Ymddiswyddiad Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Tegg:

- Cyhoeddodd y Dirprwy Lywydd ymddiswyddiad Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Margaret Tegg oherwydd salwch. Arweiniodd y teyrngedau iddi ac yna talodd Arweinwyr y Grwpiau deyrnged i'r Cynghorydd Tegg fesul un. Roedd y Cynghorydd Tegg wedi gwasanaethu fel Aelod o'r awdurdod ers 2008 yn cynrychioli ward Cymer a bu hi hefyd yn Faer, yn cynrychioli'r Fwrdeistref Sirol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017 – 2018. Ar ran yr holl grwpiau gwleidyddol, anfonodd Arweinwyr y Grwpiau eu dymuniadau gorau at y Cynghorydd Margaret Tegg ar ei hymddeoliad.

  Talodd y Cynghorydd W Treeby, Maer Rhondda Cynon Taf hefyd deyrnged i'r Cynghorydd Tegg, yn enwedig yn ei rôl fel cyn Faer. Dymunodd y Cynghorydd Treeby ymddeoliad hapus iawn i'r Cynghorydd Tegg.

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker fod Ysgol Tŷ Coch, Tonteg wedi dod yn enillwyr cyffredinol ar gyfer Cystadleuaeth Ffilm Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2022 ar gyfer Ysgolion Uwchradd, a gynhelir gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud eu dewis, dywedodd y beirniaid "Roedd y ffilm yn llawn hwyl ac yn ddeniadol iawn gyda neges gref". Gofynnodd y Cynghorydd Walker pe byddai modd i'r Maer anfon llythyr i longyfarch yr ysgol.

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H Fychan yn dymuno cyflwyno dwy ddeiseb ar gyfer ward Pontypridd. Mae’r cyntaf, wedi’i llofnodi gan 150 o drigolion, yn ymwneud â nifer o faterion o fewn Graigwen, Pontypridd, a'r ail, wedi’i llofnodi gan 109 o drigolion, yn galw ar y Cyngor i fynd i’r afael ar fyrder â nifer o faterion sy’n effeithio ar Heol Berw, yn hanesyddol ac ers llifogydd 2020. Roedd y Cynghorydd Fychan yn gobeithio y byddai'r Cyngor yn gweithio gyda thrigolion i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

- Yn ei rôl fel Cynrychiolydd y Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid ar gyfer yr Awdurdod Lleol, dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Harries fod lluoedd cadetiaid Ysgol Gyfun Treorci, o’r enw 'Team Treorchy', wedi gosod her iddyn nhw eu hunain i godi £16,000 i Wellchild drwy redeg Marathon Llundain ym mis Hydref 2022. Mae'r tîm yn cynnwys 11 aelod o staff Ysgol Gyfun Treorci ac eraill o'r gymuned leol. Bydd y tîm yn cael ei arwain gan yr Ail Lefftenant Woodhouse, yr Ail Lefftenant Wild a’r Is-gapten Morgan. Roedd y Cynghorydd Harries yn dymuno anfon y ddolen i'r dudalen codi arian at yr holl Aelodau.

## 124 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2022 yn rhai cywir.

## 125 Datganiadau

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber fod y Cyngor wedi sicrhau swydd ar gyfer Swyddog Treftadaeth a Chofebau gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal yr wythnos nesaf. Cyfeiriodd y Cynghorydd Webber at lyfr a ysgrifennwyd gan blant Ysgol y Ddraenen Wen yn dilyn darganfod plac yn Eglwys y Santes Fair yn cynnwys enwau’r rhai a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf, 1914-18. Roedd yn dangos pwysigrwydd cofnodi'r wybodaeth, a allai fod wedi'i cholli fel arall.

Dywedodd y Cynghorydd Webber fod y Cyngor yn cefnogi gosod darllenfa wybodaeth newydd yng Ngerddi Coffa Cynon a pholion fflag newydd ym Mharc Coffa Ynysyngharad gyda'r bwriad o wneud rhagor o waith yno gydag Arian Treftadaeth y Loteri. Mae cynlluniau i wneud gwaith glanhau pellach ar Gofeb Ryfel Abercynon a chyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd fod cwmni arbenigol o Derby wedi adfer y cloc coffa yng Nghofeb Ryfel Penrhiwceibr.

Gwnaeth y Cynghorydd Webber sylw ar bwysigrwydd y penodiad newydd a fydd yn helpu i sicrhau bod y safleoedd treftadaeth, y cofebion a'r placiau yn cael eu gwerthfawrogi gan gymunedau ledled RhCT.

## 126 Cwestiynau gan yr Aelodau

Dywedwyd wrth yr Aelodau, oherwydd absenoldeb Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees-Owen, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc, na fyddai Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G P Thomas yn gofyn cwestiwn 4.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Walker i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y**

**Fwrdeistref Sirol J. Bonetto:**

*"Yn wyneb y ffaith fod ysgolion Uwchradd Cymraeg 25% o dan gapasiti, a fyddai'r adran addysg yn ystyried defnyddio'r lleoedd sy'n weddill ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig er mwyn lleddfu'r gorlenwi mewn ysgolion arbennig, gan fod awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn cynnal dosbarthiadau lloeren mewn ysgolion prif ffrwd".*

**Ymateb gan y Cynghorydd J Bonetto:**

Ymatebodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, y Cynghorydd Bonetto, yn unol â'r system AAA sydd bron â dod i ben a'r ddeddfwriaeth ADY newydd, fod yr awdurdod lleol yn adolygu digonolrwydd ei ddarpariaeth AAA/ADY yn barhaus fel bod modd i ddisgyblion gael mynediad i leoliadau arbenigol sy'n briodol i'w hanghenion heb oedi. Ychwanegodd fod 44 o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu ar waith ledled y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, yn ogystal â 4 ysgol arbennig a 2 uned cyfeirio disgyblion. Caiff yr holl ddarpariaethau eu hadolygu'n rheolaidd yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion presennol a rhagamcanol y disgyblion.

Dywedodd y Cynghorydd Bonetto fod y Cyngor yn ymateb yn rhagweithiol i unrhyw newid yn y galw am leoliadau dosbarthiadau cynnal dysgu trwy edrych ar y ddarpariaeth yn rheolaidd a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i wella'r cynnig yn ôl yr angen. O fewn yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynnig i ymgynghori ar agor Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol yn Ysgol Garth Olwg ym mis Medi 2022, ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY sylweddol.

Dywedodd y Cynghorydd Bonetto fod gwaith dadansoddi data trylwyr yn cael ei gyflawni mewn perthynas â thueddiadau yn y galw am leoedd mewn ysgolion arbennig er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol. Mae datblygiadau diweddar i wella capasiti a gwella'r amgylcheddau dysgu yn ein hysgolion arbennig yn cynnwys:

- Mae Ysgol Tŷ Coch wedi elwa o **fwy na £350k** er mwyn ailfodelu ac ymestyn ardaloedd yn yr ysgol i ddarparu 2 ystafell ddosbarth ychwanegol, yn ogystal â hynny, bu buddsoddiad o £550k ar gyfer creu dosbarth mawr arall. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi'n ddiweddar i greu dwy ardal addysgu fodiwlaidd ychwanegol ar safle lloeren Ysgol Tŷ Coch ym Muarth y Capel a disgwylir i'r gwaith ar y safle ddechrau'n fuan.

- Mae Maesgwyn wedi derbyn buddsoddiad o £600k yn ddiweddar i gyflawni gwelliannau mewnol ac allanol.

- Mae Ysgol Lôn y Parc wedi derbyn mwy na £500k ar gyfer gwaith adnewyddu a chynnal a chadw, yn ogystal â chreu ardal addysgu fwy a gwblhawyd yr haf diwethaf.

- Mae Hen Felin hefyd wedi elwa o £200k ar gyfer estyniad ystafell ddosbarth – a gwblhawyd fis diwethaf – tra bod gwaith mewnol yn parhau i ddarparu ardaloedd dysgu ychwanegol. Hefyd wedi darparu ystafell storio allanol ychwanegol newydd sydd wedi'i hailfodelu ers hynny i fod yn ganolfan lles yn yr ysgol.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker**

“Does dim modd i ddisgybl 18 oed sy’n defnyddio cadair olwyn yn Ysgol Tŷ Coch gael mynediad i ddosbarthiadau lle mae’n cael ei addysgu, ac mae mewn dosbarthiadau gyda phlant 4 a 5 oed. A yw’r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg o'r farn fod hyn yn dderbyniol yn 2022, a beth mae hi’n mynd i’w wneud yn ei gylch?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto:**

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu ar ôl y cyfarfod

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Forey i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan:**

*“Oes modd i'r Arweinydd roi’r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae’r Cyngor yn cefnogi cydweithwyr ym maes Iechyd yn y frwydr yn erbyn yr amrywiad Omicron?”*

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Ymatebodd yr Arweinydd trwy nodi ei ddiolch i staff y Cyngor mewn nifer o adrannau sydd wedi bod yn darparu cefnogaeth i'r GIG. Mae rhai wedi bod yn gweithio yn y ganolfan alwadau yn ateb nifer uchel o alwadau, yn cymryd archebion ac yn ad-drefnu apwyntiadau. Mae staff y Cyngor wedi bod yn gweithio yn y safleoedd brechu i gyfarch trigolion a'u cyfeirio i'r ardaloedd cywir, yn ogystal â thawelu eu meddyliau. Mae carfanau Eiddo'r Cyngor wedi bod yn gweithio yn y tri Safle Brechu yn RhCT i addasu adeiladau yn fewnol ac, yn fwy diweddar, yn cynorthwyo gyda gosod pebyll mawr yn yr awyr agored i ddiogelu trigolion sy'n ciwio y tu allan.

Dywedodd yr Arweinydd fod staff o'r Gwasanaeth Hamdden gwneud gwaith arbennig i helpu gyda'r pandemig, gan gefnogi'r gwaith o ddosbarthu parseli bwyd ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, helpu gyda'r safleoedd profi yn y gymuned a derbyn hyfforddiant i roi brechlyn i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen atgyfnerthu. Yn gyffredinol, mae llawer o staff y Cyngor wedi cefnogi'r GIG i ddarparu diogelwch ychwanegol ar gyfer y safleoedd brechu ac ymdrin â phobl sy'n protestio yn erbyn y brechlyn.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y cynhelir trafodaethau gydag Arweinwyr Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful ynghyd â'u Prif Weithredwyr priodol ynghylch y cynlluniau tymor hwy, i weld a fydd angen rhagor o gymorth atgyfnerthu ac a oes modd i'w safleoedd brechu presennol ddychwelyd i'w defnydd blaenorol. Darparodd yr Arweinydd sicrwydd y bydd y cymorth yn parhau i gael ei ddarparu i’r Bwrdd Iechyd lle bo angen, er ei fod yn gobeithio y byddai’r gwelliant cyson yn parhau, gyda llawer llai o achosion positif a marwolaethau yn cael eu cofnodi wrth i'r dull gweithredu ddechrau dibynnu ar synnwyr cyffredin yn hytrach na chyfyngiadau.

**Dim Cwestiwn Ategol**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

*"Er bod Aberdâr wedi bod yn ffodus i gael cyllid gan RhCT ar gyfer trac BMX a Pharc Beiciau Disgyrchiant, a fyddai'r Aelod Cabinet gystal â dweud beth mae CBSRhCT wedi'i wneud hyd yma i ddarparu cyfleusterau tebyg ym Mhontypridd os gwelwch yn dda?"*

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

Cydnabu'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, y cynghorydd A. Crimmings, fod y Cynghorydd Powell wedi codi hyn eisoes a chadarnhaodd fod Pwyllgor Cabinet Cofeb Ryfel Ynysangharad wedi ystyried hyn yn y gorffennol. Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod yr ardal a gynigiwyd gan y Cynghorydd Powell, sef safle'r hen ganolfan oriau dydd, yn cael ei hystyried yn anaddas ar gyfer y math o weithgaredd ac roedd pryderon diogelwch pellach ynghylch ei hagosrwydd at lan yr afon. Roedd yr Aelod ar ddeall bod Swyddogion yn aros am gynigion manwl oddi wrth y Cynghorydd Powell, ar gyflwyno'r ystyriaethau angenrheidiol iddo er mwyn symud hyn yn ei flaen.

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings nad yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw alw lleol am gyfleuster o'r fath, fel yr oedd yn Nhonyrefail ac Aberdâr. Serch hynny, cadarnhaodd fod Pontypridd wedi elwa o gyfleuster hamdden newydd sbon sy'n eiddo i'r Cyngor yn Llys Cadwyn ac mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol i wella Parc Coffa Ynysyngharad – yn gyntaf drwy gyllid rhaglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a arweiniodd at wella llwybrau troed a goleuadau, sydd wedi'i groesawu gan drigolion lleol. Yn ddiweddar, mae gwaith wedi dechrau ar brosiect £1.9 miliwn a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a fydd yn gweld gwelliannau yn y Safle Seindorf a'r Ardd Isel. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn offer ffitrwydd awyr agored yn ddiweddar, ac mae rhywfaint o hwn wedi'i leoli ym Mharc Coffa Ynysangharad.

O ran Lido Cenedlaethol Cymru, sydd wedi bod yn destun llawer iawn o waith a buddsoddiad, dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod y safle newydd fwynhau ei dymor mwyaf llwyddiannus ers ail-agor, er gwaethaf anawsterau'r ddwy flynedd ddiwethaf.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell:**

"Pam fod Pontypridd yn cael ei thrin yn wahanol i ardaloedd eraill yn y Fwrdeistref Sirol?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod Parc Ynysangharad a Phontypridd yn gyffredinol wedi derbyn buddsoddiad sylweddol, tua £10 miliwn ymhen Parc Ynysangharad. Awgrymodd fod y Cynghorydd yn cyfarfod â'r grwpiau y cyfeiriodd atynt yn gynharach, i gyflwyno eu syniadau a'u hawgrymiadau fel y mae llawer o Gynghorwyr eraill wedi'i wneud, i drafod y cynigion gyda

Swyddogion y Cyngor.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Williams i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

*“Sut mae’r Cyngor yn cefnogi aelwydydd incwm isel i ymateb i'r pwysau o gynyddu costau tanwydd cartrefi yn ystod y gaeaf?”*

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod hwn yn gwestiwn perthnasol iawn ar hyn o bryd. Mae'r effaith a awgrymir ar deuluoedd fel y mae'r argyfwng ynni yn parhau yn golygu y bydd y bil ynni cyfartalog yn codi £693 y flwyddyn ar ôl cynnydd o 54% yn y cap ar brisiau. Bydd y newidiadau yn dod i rym ym mis Ebrill ac yn effeithio ar tua 22 miliwn o gartrefi ledled y DU. Dywedodd fod y cynnydd yn y prisiau yn dod law yn llaw â chodiadau eraill mewn costau byw, trwy drethi uwch a chostau cynyddol bwyd ac eitemau hanfodol eraill gyda chynnydd posibl pellach i'w ddisgwyl mewn biliau cyfleustodau ym mis Hydref eleni.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi hyrwyddo ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol i annog trigolion i ymuno â Chynllun Taliad Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru a lansiwyd yn wreiddiol fel taliad o £100, a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod y taliadau untro yn dyblu i £200. Amcangyfrifir bod £3 miliwn wedi’i dalu hyd yma, gan helpu’r economi leol. Mae mwy o deuluoedd i'w cyrraedd sy'n gymwys ar gyfer y taliad ac anogodd yr Arweinydd breswylwyr i wneud cais.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU ynghylch y £175 miliwn yma, a ddilynwyd gan ddatganiad gan Drysorlys Llywodraeth y DU. Esboniodd fod y swm yn cael ei wrthbwyso gan doriadau i gyllideb Llywodraeth Cymru ar wariant diwedd blwyddyn sy'n golygu nad oes arian ychwanegol ar gael i Gymru.

**Dim Cwestiwn Ategol**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H Boggis i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad, y Cynghorydd M Powell:**

*“Oes modd i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad wneud datganiad ar flaenoriaethau’r Pwyllgor os gwelwch yn dda?”*

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell:**

Dywedodd y Cynghorydd Powell mai'r flaenoriaeth allweddol, fel Cadeirydd, yw rhoi'r cyfle i aelodau'r pwyllgor ymchwilio i wahanol agweddau ar gyflawniad yr awdurdod o ran cyllid. Ychwanegodd fod gan y pwyllgor y fantais o gael Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu eraill yn aelodau o'r Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad, sy'n golygu bod modd gorgyffwrdd â chylch gorchwyl pwyllgorau craffu eraill gyda thrafodaeth gywrain. Daeth y Cynghorydd Powell i'r casgliad bod y blaenoriaethau yn fater o gofnod cyhoeddus ar gyfer portffolio'r Pwyllgor Craffu.

**Dim Cwestiwn Ategol**

## 127 Rhaglen Waith Y Cyngor

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, mai cyfarfod dilynol y Cyngor fyddai'r cyfarfod olaf a drefnwyd cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022. Bydd y materion a drafodir yn cynnwys Strategaeth y Gyllideb a gosod Treth y Cyngor, y CDLl Diwygiedig, Polisi Tâl y Cyngor a bydd cyfle i Aelodau gofnodi eu diolch i'r Aelodau hynny nad ydynt yn ceisio cael eu hail-ethol ym mis Mai 2022.

## 128 TRAFODAETH AR SEFYLLFA'R FWRDEISTREF SIROL

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13.2 y Cyngor, nododd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi neilltuo 45 munud ar gyfer yr eitem yma, ac yr hoffai wahodd yr Arweinydd i gyfarch y Cyngor ac ymateb i sylwadau Aelodau ar ei Adroddiad Blynyddol.

Dywedodd yr Arweinydd fod ei grynodeb blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn bob blwyddyn yn amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn nodi'r hyn y mae am ei gyflawni wrth symud ymlaen.

Dywedodd yr Arweinydd fod diweddariad eleni unwaith eto yn cael ei siapio gan effeithiau a chyfyngiadau'r pandemig COVID-19, fel y soniwyd eisoes yn y cyfarfod, a gwasanaethau sydd wedi gorfod addasu ac sydd wedi mynd y tu hwnt i'w rolau fel Gwasanaethau Hamdden a Staff cyllid, sydd wedi talu degau o filiynau mewn grantiau cymorth busnes a chefnogi teuluoedd. Ychwanegodd, fel y bydd yr Aelodau'n ymwybodol, fod y mwyafrif helaeth o wasanaethau'r Cyngor wedi parhau i weithredu, er mewn ffurf wahanol, a bod y Buddsoddiad Cyfalaf wedi parhau lle mae buddsoddiad yn amlwg ar draws y fwrdeistref sirol.

### GOFAL CYMDEITHASOL - OEDOLION

Dywedodd yr Arweinydd mai dyma'r un maes lle mae galw cynyddol. Mae'r gwasanaeth yn gofyn am symiau sylweddol o fuddsoddiad gan yr awdurdod lleol, yn ystod y flwyddyn ac yn y gyllideb sydd i ddod, ond mae hefyd wedi'i gefnogi'n dda gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyllid o £50 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r pwysau ym maes Gofal Cymdeithasol. Dywedodd yr Arweinydd fod bron i 7,000 o achosion newydd wedi'u hagor dros y 12 mis diwethaf, a hynny gan drigolion yn gofyn am gymorth. Mynegodd yr Arweinydd ei ddiolch i'r holl staff yn y sector hwn a'r sector annibynnol, a chydnabu'r ymdrech ar y cyd o fewn y sector hwn i sicrhau bod y gofal priodol wrth law bob amser, gyda staff o bob sector yn cefnogi cydweithwyr sy'n ynysu gyda covid- 19. Ychwanegodd ei bod wedi bod yn anodd ar adegau i staff reoli'r pwysau o fewn y sector gofal cymdeithasol bob amser, a bod rhywfaint o angen heb ei ddiwallu, fel gyda phob awdurdod lleol. Serch hynny, rhoddodd sicrwydd i'r holl Aelodau bod y carfanau wedi gweithio'n eithriadol o galed am gyfnod hir ac yn gwneud eu gorau glas i ddiwallu anghenion preswylwyr.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y gefnogaeth sydd ar gael i alluogi preswylwyr i aros yn eu cartrefi eu hunain trwy wasanaethau megis Gofal a Thrwsio a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, sydd wedi parhau i gael eu darparu drwy weithio gyda

busnesau sector preifat ac adeiladwyr i sicrhau bod modd parhau i gael mynediad i gartrefi mewn modd diogel.

Mewn perthynas â Gofal Ychwanegol/Llety â Chymorth, dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran moderneiddio'r system ofal a ddarperir ar gyfer trigolion hŷn y sir. Mae cynllun Tai Gofal Ychwanegol Cwrt yr Orsaf ym Mhontypridd wedi'i gwblhau ac mae'r cynllun Tai Gofal Ychwanegol newydd yn y Porth bellach wedi dechrau.

Yn gyffredinol, bydd y buddsoddiad i ddatblygu Gofal Ychwanegol pellach yn flaenoriaeth i'r Cyngor wrth i'r awdurdod lleol geisio darparu model gofal a all ymateb i anghenion a dyheadau cenedlaethau hŷn y dyfodol. Cyfeiriodd yr Arweinydd at Cadw'n Iach Gartref,  gwasanaeth sy'n parhau i helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a gadael yr ysbyty cyn gynted â phosibl, gyda'r ymdrechion mwyaf yn atal pobl rhag mynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf gyda'r cymorth cywir yn ei le.

## GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT

Dywedodd yr Arweinydd fod Gwasanaethau i Blant yn faes gwasanaeth sydd dan bwysau sylweddol ac sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth, ac sydd wedi derbyn cyllid ychwanegol o £21 miliwn gan Lywodraeth Cymru ledled Cymru. Mae staff wedi parhau i weithio'n eithriadol o galed, gan gynnal eu gwaith wyneb yn wyneb gyda'r teuluoedd mwyaf agored i niwed trwy gydol y pandemig. Mae'r cymorth hwn yn aml yn mynd heb ei nodi, ond mae'r maes hwn o gyflenwi gwasanaeth yn un o'r rhai pwysicaf a ddarparwn, maes a fydd bob amser yn cael ei flaenoriaethu a'i gefnogi. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth sy'n parhau i ddarparu cymorth i deuluoedd.

Yn yr un modd, cyfeiriodd yr Arweinydd at y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS) sydd wedi bod yn darparu gwaith ieuenctid ar y stryd ledled RhCT i sicrhau bod pobl ifainc yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth. Yn ystod y 12 mis diwethaf maent wedi cynnal 570 o sesiynau min nos, gan arwain at 15,577 o gysylltiadau.  Mae dau gerbyd gwasanaeth ieuenctid wedi'u cyflwyno eleni, sy'n cefnogi cyflwyno darpariaeth ieuenctid symudol a gweithgareddau ac ymyriadau gwaith ieuenctid mewn lleoliadau cymunedol. Mae trydydd cerbyd i fod ar y ffordd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r cerbydau yma wedi ennyn ymateb da gan bobl ifainc fel lleoedd i gael cyswllt Wi-Fi a siarad â staff yn gyfrinachol.

Mae gwaith yn parhau i wreiddio rolau a chyfrifoldebau newydd ac mae Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc wedi recriwtio 4 gweithiwr cyfiawnder ieuenctid newydd i wella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys ymateb i lefelau cynyddol o gymhlethdod o ran anghenion plant, gan gynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan drawma'r blynyddoedd cynnar a chreu cysylltiadau cryfach â gwasanaethau eraill megis YEPS a Gwasanaethau Ieuenctid. Cynhelir sesiwn cyfiawnder adferol gyda 131 o atgyfeiriadau rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021.

## CANOLFANNAU YN Y GYMUNED

Cydnabu'r Arweinydd lwyddiant cynharach y Canolfannau Cydnerthedd yn y

Gymuned, sy’n parhau i ddarparu canolbwynt ar gyfer rhoi cymorth i breswylwyr. Mae hyn yn parhau i gael ei gefnogi gan y Grŵp Llywio Cymorth yn y Gymuned a sefydlwyd yn ystod y cyfyngiadau symud gyda darparu presgripsiynau, bwyd, gwasanaethau mynd â chŵn am dro a chefnogi'r preswylwyr hynny sy'n ynysu. Mae lefelau sylweddol o gymorth wedi’u darparu i’r pedwar prif Fanc Bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yn RhCT gan gynnwys £22,000 mewn arian parod, £6,000 mewn swmp-brynu stoc drwy gaffael CBSRhCT, recriwtio gwirfoddolwyr, cymorth gyda danfoniadau lleol a 2 leoliad a ddarparwyd gan gynnwys cymorth i adleoli Banc Bwyd Pontypridd adeilad gwag sy'n eiddo i'r Cyngor.

## GWASANAETHAU HAMDDEN

Dywedodd yr Arweinydd fod Pwll Nofio Ysgol y Ddraenen Wen wedi cael ei drosglwyddo yn ôl i'r Gwasanaeth Gweithrediadau Hamdden ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch ailagor y pwll nofio Ysgol Gymunedol Maerdy/Glynrhedynog. Soniodd hefyd am y buddsoddiad mewn offer ffitrwydd awyr agored sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd ym Mharc Coffa Ynysangharad a Pharc Gwledig Dâr. Yn ogystal â hynny, cyhoeddodd gynlluniau ar gyfer adeiladu cae ar Gae Baglan yn Nhreherbert (y 14eg cae o'i fath yn y Fwrdeistref Sirol). Bydd cwblhau’r cynllun yma yn golygu bod gan drigolion fynediad at gyfleuster 3G o fewn radiws o 3 milltir i ble bynnag y maent yn byw.

## PARCIAU A MANNAU CHWARAE

Mae'r Cyngor wedi parhau i wella mannau chwarae plant ar draws y fwrdeistref sirol ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, bydd 164 o brosiectau wedi'u huwchraddio neu eu hadnewyddu, gydag 20 o brosiectau yn y flwyddyn gyfredol. Ym Mharc Ynysyngharad ym Mhontypridd, mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi buddsoddi £1.2 miliwn i uwchraddio llwybrau a goleuadau a gosod cyfleuster newid lleoedd yng Nghanolfan Ymwelwyr Lido. Mae hyn yn cael ei ddilyn yn agos gyda buddsoddiad pellach o £2 miliwn a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a fydd yn darparu canolfan hyfforddiant newydd yn y gymuned ac yn uwchraddio nodweddion allweddol fel ardal y Safle Seindorf a'r Ardd Isel.

## GWASANAETHAU AILGYLCHU/GWASTRAFF

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi cofnodi ei ffigurau ailgylchu gorau erioed ar gyfer cyfnod yr Ŵyl, gyda dros 2,500 tunnell wedi’i gasglu – gan gynnwys dros 600 tunnell o wastraff bwyd, a bron i 5,000 o goed Nadolig.

## NEWID HINSAWDD

Dywedodd yr Arweinydd fod 105 o araeau Paneli Solar wedi'u gosod ar draws Ysgolion ac Adeiladau Corfforaethol, wrth i'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'i ôl troed carbon. Mae gan y Cyngor 21 o Gelloedd Tanwydd Hydrogen ledled RhCT wedi'u gosod mewn canolfannau hamdden, ysgolion a swyddfeydd. Ychwanegodd fod lleihau defnydd ynni'r Cyngor ac ystyried opsiynau ynni gwyrdd yn flaenoriaeth. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn y gyllideb eleni gyda dyraniad refeniw pellach o £500K yn ychwanegol at y dyraniad cyfalaf o £1.5 miliwn.

## Y DIWEDDARAF - STORM DENNIS

Dywedodd yr Arweinydd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon bydd dros 100 o gynlluniau wedi'u darparu ar draws y fwrdeistref sirol, llawer ohonynt yn gynlluniau cam cyntaf, i'w dilyn gan yr ail a'r trydydd cam. Cwblhau gwaith Gwrthsefyll Llifogydd ar yr A4059 drwy uwchraddio cwlfert i Deras Bronallt. Abercwmboi, cwblhau gwaith uwchraddio Draenio Priffyrdd i Heol Pentre, Pentre, cwblhau gwaith Lliniaru Llifogydd ar Canal Road, Cwm-bach ac yn Heol y Rhigos.

O ran difrod stormydd i bontydd, rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad ar ddyluniad atgyweiriadau mawr megis amnewid pont Castle Inn - mae'r Cyngor wrthi'n deryn tendrau ar hyn o bryd, gyda'r gwaith i fod i ddechrau ddiwedd Gwanwyn 2022. Cwblhawyd y Bont Pibellau Cyflenwi, Abercynon, a bwriedir gosod pont newydd yn haf 2023.

O ran diogelwch Tomenni Glo, dywedodd yr Arweinydd fod ymgynghoriad cynllunio cais Cam 4 Tomen Tylorstown wedi dechrau, a'i fod i'w gwblhau yn ddiweddarach ym mis Chwefror gydag astudiaethau'n mynd rhagddynt i helpu i ystyried tomenni hen lofeydd y Standard a'r National yn y tymor hwy, gan ddefnyddio offer newydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y ffaith y cymeradwywyd y broses o sefydlu carfan Diogelwch Tomenni Glo penodol, yn cynnwys 6 swydd newydd; ynghyd â chyllideb refeniw o £200k ar gyfer gwaith cynnal a chadw, sy'n golygu buddsoddiad cyffredinol o bron i £0.5 miliwn y flwyddyn. Dywedodd yr Arweinydd y bydd y gwaith buddsoddi cyfalaf mawr sydd wedi'i wneud yn rhoi mwy o hyder i drigolion a bydd angen mwy o waith i sicrhau bod y cyrsiau dŵr cyffredin yn lleihau'r llifogydd.

O ran llifogydd afonydd, dywedodd yr Arweinydd fod CNC yn parhau i weithio’n agos gyda’r awdurdod lleol, i drafod cynnydd yn dilyn Storm Dennis gyda gwaith ailfodelu sy’n cael ei wneud ar Afonydd Cynon, Taf a’r Rhondda yn asesu pa ymyriadau y gellir eu gwneud.

## CANOL TREFI/MENTER

Talodd yr Arweinydd deyrnged i swyddogion RhCT sydd wedi gwneud taliadau o dros £80 miliwn mewn Grantiau Cymorth Busnes Brys a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a Busnes Cymru yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud a chyfyngiadau ar fasnachu busnes, yn aml yn gweithio oriau estynedig i sicrhau bod y taliadau’n cyrraedd busnesau cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys £7 miliwn pellach o dan y cylch ariannu presennol.

## ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT

Diolchodd yr Arweinydd i'r staff addysgu a staff yr ysgol am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad yn ystod y cyfnod hwn i barhau i ddarparu amgylcheddau dysgu diogel a pharhaus i blant RhCT. Mae ysgolion wedi parhau i ysgogi gwelliant strategol er gwaethaf heriau amlwg y pandemig. Cafwyd adborth cadarnhaol gan Estyn mewn cyfarfod diweddar gyda'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Ymatebodd yr Arweinwyr Grŵp i ddadl yr Arweinwyr, gyda phob un yn talu teyrnged i'r GIG, staff y Cyngor, staff Ysgol a Gofal Plant, y sectorau manwerthu a gwirfoddol a llawer yn rhagor am eu gwaith caled a'u hymroddiad trwy gydol y pandemig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jarman at y 12 mis diwethaf, sydd wedi bod yn gyfnod

anodd i lawer o deuluoedd gyda’r cynnydd mewn costau byw - gyda llawer o'r teuluoedd hyn eisoes yn byw mewn tlodi bwyd, tanwydd a dŵr. Gyda chost tanwydd domestig yn cynyddu, effaith y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol ar gyflogau ym mis Ebrill a chost gynyddol chwyddiant a bwydydd hanfodol ar hyn o bryd, roedd y Cynghorydd Jarman yn ofni y byddai’r sefyllfa’n drychinebus i lawer o deuluoedd. Serch hynny, roedd hi’n ystyried hynny byddai’r Cinio Ysgol am Ddim i bob plentyn Cynradd a oedd yn rhan o’r cytundeb cyllideb a wnaed gan Blaid Cymru mewn cytundeb â LlC, fel rhan o’r cytundeb cydweithredu, yn helpu’r frwydr yn erbyn tlodi plant i raddau.

Cynigiodd pob un o'r Arweinwyr Grŵp gwestiynau i'r Arweinydd ar y canlynol, ac ymatebodd yr Arweinydd iddyn nhw.

Rhestr Categorïau Tomenni wedi’u rhyddhau gan LlC – Ymatebodd yr Arweinydd fod LlC yn gobeithio cyhoeddi’r rhestr erbyn yr haf ond pwysleisiodd bwysigrwydd gwerthuso risgiau’r tomenni sy’n bwysig i ddeall a oes eiddo neu briffyrdd cyfagos, ac a oes unrhyw berygl i fywyd, yn seiliedig ar y modelu a'r asesiadau. Mae LlC eisiau sicrhau bod y wybodaeth yn werth chweil i drigolion.

Cynllun Gweithredu Costau Byw mewn Argyfwng – Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd llwyr, tra ei fod yn parhau i fod yn Arweinydd y Cyngor, y dylid cael cytundeb trawsbleidiol i gefnogi hyn wrth symud ymlaen.

Bydd Pontypridd yn colli ei darpariaeth Chweched Dosbarth, tar bod ardaloedd eraill yn cadw eu rhai nhw, ac mae’n ymddangos bod diffyg cyfeiriad gan swyddogion y Cyngor yn y maes hwn o gymharu ag eraill, er mai Pontypridd sy’n gwneud y cyfraniad mwyaf at Dreth y Cyngor. Soniodd yr Arweinydd am bum Canolfan Chwaraeon yn ardal Taf Elái o'u cymharu â dim ond dwy yng Nghwm Cynon a thair yn y Rhondda, gan ychwanegu bod Treth y Cyngor yn gyfraniad ar y cyd. Dywedodd fod buddsoddiad yn gyfartal ledled y fwrdeistref sirol gyfan ac yn cael ei ddyrannu ar sail angen. Mae’r buddsoddiad yng nghanol y dref ym Mhontypridd yn sylweddol, mae’r adborth gan fasnachwyr yn gadarnhaol, mae’r farchnad dan do yn ffynnu, ac mae trafodaethau’n parhau ynghylch buddsoddi a datblygu pellach. Dywedodd yr Arweinydd fod Parc Ynysangharad yn drysor arbennig yng nghanol y dref.

Amserlenni wedi’u diweddaru ynghylch y prosiect Metro – Darparodd yr Arweinydd ddiweddariad ar y Metro, i’w gwblhau 9-12 mis yn hwyrach na’r disgwyl oherwydd Covid-19. Dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn ardal Aberpennar ac y bydd yn dechrau ar y gorsafoedd yn y Rhondda eleni. Dywedodd hefyd bod gwaith ar y gorsafoedd yn mynd rhagddo gyda'r holl gontractau a osodwyd. Dywedodd fod y trenau'n cael eu gweithgynhyrchu heb unrhyw oedi i'r rhan hon o'r gwaith. Dywedodd fod disgwyl cyhoeddiad o fewn y 4-6 wythnos nesaf ar gyflymiad sylweddol i'r gwaith.

Deuoli’r A4119 – Cadarnhaodd yr Arweinydd fod cyllid wedi’i ryddhau gan yr awdurdod lleol i gyflymu’r gwaith yma. Gydag arian y sector preifat a chyllid posibl gan y Fargen Ddinesig bydd estyniadau i Ystad Ddiwydiannol Coed Elái lle mae un Uned Fusnes fodern eisoes yn meddiannu'r eiddo, a bydd yn cyflogi mwy na 30 o bobl ar y safle.

Mae cylchfan cyffordd 34 yn rhwystr i fuddsoddiad yn y rhan honno o’r Rhondda a Phontypridd – dywedodd yr Arweinydd fod hyn yn dod o dan awdurdodaeth yr Asiantaeth Cefnffyrdd ond mae astudiaeth ar y gweill i ystyried yr M4 i leihau rhywfaint o’r pwysau ar hyd y llwybr hwnnw.

Agorodd y Llywydd gwestiynau i'r holl Aelodau a dywedodd y byddai'n cymryd tri chwestiwn ar y tro.

Beth fydd yr her fwyaf i'r awdurdod lleol ar ôl mis Mai ac i bwy bynnag yw Arweinydd yr awdurdod hwn – dywedodd yr Arweinydd mai'r flaenoriaeth i'r Cyngor fyddai mynd i'r afael â'r potensial ar gyfer cynnydd mewn tlodi plant drwy'r carfanau cymunedau am waith sy'n cefnogi trigolion sy'n chwilio am waith - sy'n allweddol i helpu pobl allan o dlodi. Mae talu staff yn dda hefyd yn hollbwysig felly mae holl weithwyr gofal cymdeithasol annibynnol y Cyngor ar gontract i oedolion, yn ogystal â holl dderbynwyr taliadau uniongyrchol, wedi cael o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol erbyn Rhagfyr 2021. Yn fwy diweddar, cytunodd y Cyngor i dalu isafswm cyfradd cyflog sy'n uwch na'r Cyflog Byw Gwirioneddol – gan gynyddu'r lefel hon i £10 yr awr o 1 Ebrill, 2022. Mae mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd hefyd yn allweddol gan fod y Cyngor yn ymwybodol o sut y gall leihau ei ôl troed carbon.
Dywedodd yr Arweinydd fod RhCT yn ardal wych ar gyfer busnesau newydd ond bod angen eu hannog i dyfu a chreu swyddi.

Cyrbiau isel ar gyfer trigolion anabl a'r rhai sy'n defnyddio sgwteri ar draws y fwrdeistref sirol – Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y gyllideb oddeutu £40k, ond gofynnodd i'r holl Aelodau gyda'r ymholiadau hyn i ddarparu gwybodaeth am y sefyllfa benodol yn eu wardiau priodol.

Sut y gall yr awdurdod lleol hwn, gan weithio gyda LlC a Llywodraeth y DU gefnogi'r cymunedau tlotaf y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt? – Eglurodd yr Arweinydd fod y Cyngor bellach wedi rhagori ar uchelgais y weinyddiaeth hon i greu 150 o swyddi prentisiaeth a rhaglenni graddedigion. Ar hyn o bryd, mae gyda ni 187 o'r swyddi hyn, ac rydyn ni'n recriwtio 21 o Raddedigion – gan ddod â'r cyfanswm i dros 200 erbyn diwedd y tymor hwn. Parhau i weithio drwy glybiau swyddi a chymunedau am waith i gefnogi preswylwyr. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y grwpiau cymunedol niferus, megis Grŵp Pwll Padlo ym Mhenrhiwceibr, a all helpu'r cymunedau o'u cwmpas.

Cynllun ym Mhenrhys – Dywedodd yr Arweinydd mai mater i Trivallis, fel perchennog yr ystad, yw cadarnhau eu sefyllfa, ond bod y Cyngor wedi rhoi ymrwymiad cyfalaf i adeiladu ysgol newydd ar yr ystad. Nid yw'r ystad yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Ymgysylltiad y Cyngor – Yn ddiweddar cynhaliodd y Cyngor rywfaint o ymgynghoriadau ar-lein ar y cais cyn cynllunio ar gyfer cam 4 Tomen Tylorstown, ar y rhwydweithiau beicio cenedlaethol ac ar y gorchmynion parcio a thraffig. Cafodd y rhain eu cynnal ar-lein gan nad oedd modd cynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb. Anogodd yr Arweinydd yr holl Aelodau i ymgysylltu â'r broses ymgynghori ar y Gyllideb. Mae'r broses ar-lein yn rhoi'r cyfle i bobl roi eu barn.

Llwybr beicio yn y Rhondda Fawr - Dywedodd yr Arweinydd nad oes unrhyw ffordd ddiogel o ddarparu llwybr oddi ar y briffordd drwy'r Rhondda Fawr ond bod cynigion posibl i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, yn ardal Treorci a Pharc Ystrad. Mae ceisiadau am gyllid ychwanegol hefyd yn cael eu gwneud ar gyfer Pont Heol y Nant. Anogodd yr aelod lleol i ymgysylltu â Swyddogion y Cyngor.

Ymchwiliad y DU/Cymru yn benodol i Covid – Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n ansicr ynghylch sut y byddai ymchwiliad covid y DU yn ymddangos o

safbwynt Cymreig ond ychwanegodd y byddai disgwyl iddo fel Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru roi tystiolaeth ar ran Cymru. Ychwanegodd fod llawer o wybodaeth eisoes wedi'i rhannu a bod y Bwrdd Iechyd yn darparu diweddariadau rheolaidd ynghylch heintiau mewn ysbytai. Pwysleisiodd bod angen i gylch gorchwyl unrhyw ymchwiliad ateb y pwyntiau a godwyd gan y cyhoedd.

Llwybrau Troed – Cytunodd yr Arweinydd bod gwella mynediad at lwybrau troed yn hollbwysig, yn ogystal ag edrych ar y cysylltiadau ymylol. Gofynnodd i'r Aelod lleol anfon manylion penodol yr ymholiad ato.

Canmoliaeth i'r Arweinydd/Cabinet a Swyddogion y Cyngor – Cadarnhaodd yr Arweinydd y lefel uchel o fuddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion, gwella priffyrdd, a chyfleusterau Gofal Ychwanegol sydd hefyd o fudd i'r economi leol. Cafodd y gwariant yn RhCT ei ganmol gan Sefydliad Bevan gan fod ei wariant o fudd nid yn unig i drigolion lleol ond hefyd i'r rhanbarth a'r sir.

Cyllid tymor hwy i Ysgolion - Cadarnhaodd yr Arweinydd ddigwyddiadau rhad ac am ddim Rhyddid y Fwrdeistref Sirol yn Rhondda, Cynon a Thaf i ddathlu ymdrechion ein gweithwyr hanfodol ac i fyfyrio ar effeithiau'r pandemig ar y fwrdeistref sirol. O ran y gyllideb ysgol tymor hwy, bu'r Arweinydd yn ofalus gyda chynllunio hanfodol os na fyddai'r cyllid yn dod i'r amlwg.

Gweithgareddau i Bobl Ifainc ym Mhontypridd – Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod yn defnyddio Parc Ynysangharad a Chlwb Rygbi Pontypridd a bod cerbyd hwb YEPS yn ymweld â Phontypridd yn rheolaidd i ymgysylltu â phobl ifanc.

Adroddiadau Adran 19 – Eglurodd yr Arweinydd fod yr adroddiadau Adran 19 yn gosod y swyddogaethau statudol, o ran llifogydd afonydd mae hyn yn dod yn ôl i'r modelu. Dywedodd fod angen aros am y tri model, (tua 18 mis arall) y mae angen eu hystyried gyda'i gilydd. Esboniodd fod hyn yn cael ei wneud yn llawer cyflymach nag erioed o'r blaen a bod y modelu yr eir i'r afael ag ef wedi gwella'n fawr.

Pa feysydd sydd wedi cael eu dad-flaenoriaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? –Eglurodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw faes wedi ei ddad-flaenoriaethu, ond bod y Cyngor wedi cynnal y gyllideb gyfalaf graidd. Hoffai ychwanegu llawer o feysydd buddsoddi eraill ond ychwanegodd ei fod yn gydbwysedd a bod buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu yn ôl gofynion ac anghenion sy'n cystadlu.

Buddsoddiad mewn Mannau Chwarae Plant – Esboniodd yr Arweinydd fod gan bob man chwarae werth chwarae yn ôl graddfa RAG gyda statws coch, oren a gwyrdd. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cael gwared ar gynifer o fannau chwarae coch â phosib gyda'r bwriad o gael gwared ar bob ardal coch ac ambr yn y pen draw.

Deuoli'r A465 – Gofynnodd yr Arweinydd i'r Aelod lleol gysylltu ag ef yn dilyn y cyfarfod fel y gellir mynd ar drywydd hyn gyda swyddogion LlC.

I gloi, dymunai'r Arweinydd gydnabod holl staff y cyngor am eu hymdrechion dros y 12 mis diwethaf a'u hymdrechion parhaus i gynnal y ddarpariaeth gofal cymdeithasol, i sicrhau bod cartrefi gofal yn cael eu staffio, sicrhau bod cartrefi plant yn cael eu staffio a sicrhau bod ymdrechion ein holl staff yn parhau i gael eu cydnabod.

Diolchodd y Llywydd i'r Arweinydd am ei ddadl a'i ymatebion i'r Aelodau.

**129 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Yr Aelod**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn ceisio darparu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Aelodau drafft i'r Cyngor, a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu. Mae'r Memorandwm yn ceisio cefnogi uchelgeisiau'r Cyngor i hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth, a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad a pharch rhwng Aelodau.

Bu Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn ystyried ac yn cefnogi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd ac roedd yn cefnogi'r egwyddorion a gynhwyswyd a'i fanteision arfaethedig. Ystyrir y byddai ei fabwysiadu yn cryfhau safonau a threfniadau moesegol o fewn y Cyngor ac y byddai'n cefnogi ac yn cyd-fynd â Chod Ymddygiad y Cyngor i Aelodau, y Safonau Ymddygiad a Ddisgwylir gan y Polisi Datrysiad Lleol Aelodau a'r Protocol Aelod-Swyddogion.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, yn amodol ar gytundeb y Cyngor, yn sail i weithgareddau a digwyddiadau 'Dod yn Gynghorydd' i'w cynnal ar 2 a 3 Mawrth 2022.

Mewn perthynas ag Adduned Ymgyrch Etholiad Teg a Pharchus, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y gofynnir i bob Aelod gefnogi datganiad o egwyddor gyda chynnwys addewid penodol RhCT i'w gytuno gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod dilynol (gyda gwahoddiad i gael ei ymestyn i Arweinwyr Grwpiau neu eu cynrychiolwyr enwebedig). Cynigir y byddai'r adduned wedyn yn rhan o ddeunydd a ddarperir i ymgeiswyr a enwebwyd yn llwyddiannus gan adran Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor a hefyd yn cael ei hyrwyddo gan y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, yn amodol ar y Cyngor yn cytuno â'r argymhellion, y byddai adduned ymgyrch etholiadol deg a pharchus benodol RhCT yn cael ei roi i bob Cynghorydd ar y cyd â'u Cod Ymddygiad ar ôl llofnodi eu datganiad derbyn Swydd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

(i) Mabwysiadu'r ‘Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth’ drafft, a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac sydd wedi’i atodi yn Atodiad A, yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Safonau’r Cyngor er mwyn annog parch pellach at ei gilydd a dangosiad o gydweithio gan Aelodau ar gyfer budd eu cymunedau; a

(ii) Fel rhan o fabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, bod y Cyngor yn ymrwymo i gefnogi Adduned Ymgyrch Etholiad Teg a Pharchus, ac yn dirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gytuno ar ei gynnwys.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.28 pm** **Cllr G Hughes**

**Cadeirydd.**